

Merthyr Tudful
Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (2016-2031)

ARCHWILIAD

www.merthyr.gov.uk/ldpexamination

AGENDA

ar gyfer

Sesiwn Gwrandawriad 2 ar 25 Mehefin 2019 am 14:00

MATER 2: CYNLLUNIO STRATEGAETH, CYFLENWI A SEILWAITH

Sylwadau agoriadol a chyflwyniadau

2.1. Cynllunio strategaeth (gan gynnwys polisïau SW4 a SW5)

- a. A fyddai'r dosbarthiad a gynlluniwyd o dyfiant yn cefnogi Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol?
- b. A gafodd y strategaeth ofodol ei chreu mewn modd sy'n gyson â dilyniant chwiliad safle a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10 (PCC)¹, gan gynnwys mewn perthynas â hygyrchedd, tir a ddatblygwyd yn flaenorol a thir amaethyddol 'Gorau a Mwyaf Amlbwrpas'?
- c. A yw polisi SW4 yn gosod allan meini prawf asesu digon trylwyr ar gyfer rheoli ffurf aneddiadau'r Fwrdeistref Sirol?
- d. Mae Polisi SW5 yn caniatáu cynlluniau tai fforddiadwy graddfa fach "sy'n ffinio â ffiniau/terfynau aneddiadau" A ddylai hefyd fod yn gymwys i aneddiadau bach sydd heb ffiniau dynodedig ²?

2.2. Cyflenwi a seilwaith

- a. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno amserlen o seilwaith gofynnol i gyflenwi'r Cynllun³.
 - i. A oes yna sicrwydd digonol o ran ariannu a chyflenwi'r seilwaith gofynnol neu seilwaith a ddiogelir a ddynodir yn yr atodlen hwn?
 - ii. A ddylai'r atodlen (yn rhannol neu yn gyfan gwbl) gael ei gynnwys fel atodiad i'r Cynllun, gyda chyflenwi seilwaith yn cael ei fonitro yn erbyn graddfeydd amser dangosol?
 - iii. A yw'r atodlen yn dynodi'r seilwaith allweddol gofynnol i gyflenwi'r Cynllun, gan gynnwys cyfleusterau a leolir y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol ?
- b. A yw'r dystiolaeth hyfywedd yn cymryd ystyriaeth ddigonol o ofynion polisi a deddfwriaethol am gyflenwad y dyraniadau safle?
- c. Beth yw'r goblygiadau ymarferol o'r gyfundrefn cydsynio draenio cynaliadwy ar y cyflenwad o'r Cynllun? A oes yna dystiolaeth i arddangos y gallai safleoedd a ddynodwyd gefnogi draenio cynaliadwy yn hyfyw a chael eu cyflenwi yn ôl y cyfraddau amser a dybir ⁴?
- d. A yw'r strategaeth yn ddigon hyblyg i ddelio gyda newidiadau i'r dyfodol, gan gynnwys ffactorau economaidd allanol?

¹ PCC paragraffau 3.37 i 3.55

² PCC paragraff 4.2.34

³ Cynllun Seilwaith CDLI Mai 2019 [ED007a]

⁴ Ymateb y Cyngor i Lythyr Cychwynnol yr Arolygydd [ED007]

2.3. Goblygiadau cynllunio (polisi SW9)

- a. A yw'r cyfeiriad at lefel "ddangosol" o dai fforddiadwy ym maen prawf 1 polisi SW9 yn ddigon clir?
- b. Mae paragraff 6.5.59 yn dynodi y caiff darpariaeth gwagle agored ei bennu yn unol â safonau sy'n cael eu cynnwys yn y Strategaeth Gwagle Agored (SGA)⁵.
 - i. A yw'r safonau a fynegir yn y SGA yn ddigon clir a/neu a ddylen nhw gael eu crynhoi yn y Cynllun ei hun?
 - ii. A fyddai Adran 106 cyfyngiadau cronni neu wrthdaro gyda'r seilwaith a gynhwysir ar restr Rheoliad Seilwaith Cymunedol 123 mabwysiedig, yn atal cymhwyso effeithiol o ran maen prawf 3 polisi SW9?
- c. A ddylai gael ei egluro sut gall cyfraniadau Adran 106 gael eu sicrhau ar gyfer unrhyw seilwaith allweddol na chynhwysir yn rhestr Rheoliad 123 ?

2.4. Seilwaith trafndiaeth (polisi SW12)

- a. Mae'r Cyngor wedi cynnig newid paragraff 1.11 y Cynllun i egluro nad yw'r Map Cyfyngiadau yn ffurfio rhan o'r Cynllun ⁶. Gan fod llwybrau Teithio Actif wedi eu dynodi o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) a ddylai llwybrau a gymeradwyir gael eu dynodi ar y Map Cyfyngiadau yn hytrach na'r Map Cynigion?
- b. A yw'r Cynllun yn cefnogi gweithredu cynlluniau a ddynodwyd yn y Cynllun Trafnidiaeth Leol⁷ a'r buddsoddi a raglennwyd gan Drafnidiaeth ar gyfer Cymru? A yw'r rhain wedi eu gafael yn ddigonol yn yr atodlen isadeiledd a gyflwynwyd ⁸?
- c. A yw'r dynodiadau diogelu ar gyfer estyniad llinell reilffordd Cwm Bargoed i Ddowlais Top, a'r orsaf Metro newydd yn Ardal Adfywio Strategol Hoover, wedi eu cyfiawnhau gan y dystiolaeth drafnidiaeth? ⁹?

2.5. Unrhyw fater arall

⁵ Strategaeth Gwagle Agored Merthyr Tudful Mehefin 2016 [SD47]

⁶ Ymateb y Cyngor i Lythyr Cychwynnol yr Arolygydd [ED007]

⁷ Gan gynnwys y rheini yn Nhablau 5 a 10 Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cymoedd De-ddwyrain Cymru [SD40]

⁸ Atodlen CDLI Amnewid Seilwaith Mai 2019 [ED007a]

⁹ Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cymoedd De-ddwyrain Cymru Ionawr [SD40]; Asesiad Trafnidiaeth Strategol Hoover SRA [SD51]